**CYFARFOD COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU**
**A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 30 GORFFENNAF 2025 YN CP2 a thrwy Teams**

**Yn bresennol:** Bev Smith (Cadeirydd); Dianne Bevan, Frank Cuthbert, Michael Imperato, Ginger Wiegand, Bethan Williams Price, Karen Jones, Frances Duffy, Andrew Blackmore (Cadeirydd, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio)

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Tom Jenkins (Pennaeth Arolygon); Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Ellie Chapman (Swyddog Cymorth Tîm)

**Ymddiheuriadau:** Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Roger Ashton-Winter (Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd)

**Amser Dechrau: 10:01**
**Amser Gorffen: 11:48**

## 1. Datganiadau Buddiannau

1.1. Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau.

## 2. Briff gan y Cadeirydd

2.1. Soniodd y Cadeirydd wrth y Comisiwn am CX, KJ a thîm Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) a fynychodd gynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yng ngogledd Cymru, gan ddweud ei bod yn gyfle da i arweinwyr rwydweithio.

2.2. Soniodd y Cadeirydd am fynychu'r fforwm Arweinwyr Cyhoeddus a'i fod wedi rhoi cyd-destun da ar gyfer y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

2.3. Dywedodd y Cadeirydd y bu cyfarfod ddoe gydag MK o Lywodraeth Cymru, a thrafodwyd y Llythyr Cylch Gwaith. Trafododd y Comisiynwyr y rhan am uwch rolau, sy'n awgrymu bod y pwyllgor yn edrych ar rolau Uwch o fewn Cynghorau Cymuned a Thref yn ogystal â Phrif Gynghorau. Mae angen diwygiadau pellach i egluro geiriad amwys ynglŷn â thaliadau ymaddasu a beth yw'r rheoliadau.

2.4. **Gweithredu**: Ysgrifennu ymateb i'r Llythyr Cylch Gwaith sy'n ceisio eglurhad a diwygiadau.

2.5. Soniodd y Cadeirydd am y model hunanasesu, gan gynnwys yr amserlen a gytunwyd ar gyfer y flwyddyn nesaf a'r angen i fyfyrio ar newidiadau sydd wedi digwydd yn ystod y 12-18 mis diwethaf. Cynhelir trafodaeth â'r Cadeirydd newydd i adolygu'r adnoddau a ddefnyddiwyd/sy'n angenrheidiol.

2.6. Soniodd y Cadeirydd am recriwtio a swydd-ddisgrifiad wedi'i ddiweddaru ar gyfer y Cadeirydd gyda swyddogaethau newydd. Bydd hysbyseb ar gyfer rôl y Cadeirydd yn cael ei chyhoeddi ar 4 Awst, gyda chyfweliadau tua chanol i ddiwedd mis Hydref a phenodi ar ddiwedd mis Rhagfyr. Bydd mis Rhagfyr yn gyfnod trosglwyddo, a gobeithir y bydd y Cadeirydd newydd yn cysgodi cyfarfod CDFfC. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â recriwtio swyddi Comisiynwyr ochr yn ochr â'r Cadeirydd, ond recriwtio'n weddol gyflym ar ôl gwneud y penodiad.

2.7. **Gweithredu**: Gofynnir i'r Comisiynwyr gylchredeg y manylion recriwtio ymhlith cysylltiadau, lle bo'n bosibl, i gynyddu amlygiad.

2.8. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i Lywodraeth Cymru ar gynnydd y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau, dyfarnu'r contract a'r risgiau parhaus sy'n gysylltiedig â chostau integreiddio. **Nodwyd** hyn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i trafodir wrth i'r prosiect symud ymlaen a phan fydd y costau'n fwy eglur.

2.9. Trafododd y Cadeirydd y mater a godwyd gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ymwneud â'r gofynion am yswiriant indemniad ar gyfer y Comisiwn. Wrth drafod gyda Llywodraeth Cymru, cadarnhawyd y bydd y tîm cyfreithiol yn darparu geiriad i'w ystyried sy'n cadarnhau bod y risg wedi'i lliniaru fel y corff noddi. Cadarnhaodd y Cadeirydd hefyd fod gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Lloegr (LGBCE) yr un trefniadau gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac nad oedd ganddo ei yswiriant indemniad ei hun.

2.10. **Gweithredu**: Gofynnir i gynghorwyr cyfreithiol y Comisiwn adolygu'r geiriad cyfreithiol pan ddaw i law ac os bydd angen penderfynu ar y gofyniad am Yswiriant Indemniad, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w ystyried a gwneud penderfyniad.

2.11. Cydnabu'r Cadeirydd yr ansicrwydd ynglŷn â'r amserlen ar gyfer taliadau parasiwt a bod angen eglurhad er mwyn i waith allu dechrau. Cadarnhaodd y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ychwanegol.

2.12. Dywedodd y Cadeirydd y byddai eglurder ynglŷn â'r camau sy'n cael eu cymryd i baratoi ar gyfer etholiadau'r Senedd o ran y platfform a gwaith etholiadol yn hwyluso trafodaethau rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a Gweinidogion.

2.13. **Gweithredu**: KJ i godi hyn yn y cyfarfod diweddaru rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru.

2.14. Cadarnhaodd y Cadeirydd nad oedd awydd i wneud unrhyw benderfyniadau mawr am ddyfodol Cynghorau Cymuned a Thref cyn etholiad y Senedd.

2.15. Dywedodd y Cadeirydd fod Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Cadeirydd y Bwrdd Rheoli Etholiadol a CX wedi cyfarfod ynglŷn â llywodraethu, a bod cynnydd wedi'i wneud o ran eglurder a deall rolau a chyfrifoldebau. Mae'r canlyniad wedi'i gynnwys ym mhapurau'r cyfarfod.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2025

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2025 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion sy'n Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 23 Gorffennaf 2025 gan y Prif Weithredwr ar Faterion sy'n Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol, hefyd:

4.3. **(Mater 1)** Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth – Cafodd y Comisiwn 3 chais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 23 Mai 2025 a 22 Gorffennaf 2025.

4.4. **(Mater 2)** Llythyr Cylch Gwaith – Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad ar y Llythyr Cylch Gwaith sydd wedi dod i law bellach.

## 5. Y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE)

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth lawn i'r Adroddiad dyddiedig mis Mehefin 2025 gan Gadeirydd y BRhE. Cydnabu'r Comisiynwyr y gwaith sylweddol a

gwblhawyd a’r cynnydd a wnaed ar feysydd allweddol fel llywodraethu a’r Platfform Gwybodaeth am Etholiadau.

5.2. **Nodwyd** bod cyfarfod nesaf y BRhE ar 8 Awst, ac y byddai’r Comisiynwyr yn cael diweddariad llawn pan fyddent yn cyfarfod nesaf.

5.3. **Nododd** a **derbyniodd** y Bwrdd y trefniadau llywodraethu a diolchodd i Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a Chadeirydd y BRhE am y gwaith a wnaed i roi eglurder iddo.

5.4. **Nodwyd** y bydd y gofrestr strategol a’r gofrestr risgiau cynnyrch yn cael eu derbyn ym mhob cyfarfod o’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a chytunwyd i ofyn i’r tîm archwilio mewnol wneud gwaith sicrwydd ychwanegol ynglŷn â’r platfform o ganlyniad i’r risg sy’n gysylltiedig â graddfeydd amser.

5.5. **Nodwyd** bod dau dendr wedi cael eu derbyn ar gyfer y Platfform Gwybodaeth. Mae tendr wedi cael ei ddyfarnu ac mae bellach yn y cyfnod segur.

5.6. **Nodwyd** y cynhaliwyd gweithdy hygyrchedd ynglŷn â’r platfform a heriau o fewn y rheoliadau. **Nodwyd** bod y rheoliadau’n pennu bod fformat PDF yn cael ei ddefnyddio ar gyfer anerchiadau etholiadol, ond nid yw hynny’n dda o ran hygyrchedd. Cynhaliwyd y gweithdy i ystyried lliniaru’r risgiau.

5.7. **Nodwyd** y cynhaliwyd gweithdy pleidiau gwleidyddol yr wythnos ddiwethaf hefyd, a gobeithir y bydd rhywfaint o gymorth ar gael i brofi’r ffordd maen nhw’n gosod anerchiadau ymgeiswyr ar y platfform.

5.8. **Nodwyd** bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cyhoeddi ystod eang o ddiwygiadau sydd i’w gweithredu erbyn 2028.

5.9. **Nodwyd** bod 5 cyfarfod o’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi’u trefnu rhwng nawr a mis Mawrth 2026 pryd y bydd yn derbyn cofrestr risgiau’r BRhE yn ogystal ag adroddiadau proses ar y prosiect. Diben hyn yw rhoi cymorth a sicrwydd cadarnhaol i’r bwrdd, a bydd FD hefyd yn cael ei wahodd i sôn am risgiau sy’n ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol. Trafodwyd sut mae’r Cadeirydd eisiau derbyn y sicrwydd cadarnhaol, a phenderfynwyd ar ddiweddariad chwarterol ar lafar yn ogystal ag yn ysgrifenedig.

5.10. Trafodwyd cofrestru etholwyr yn awtomatig. Trafodwyd hyn gydag MK a ddywedodd na fydd yn cael ei ddarparu ar gyfer etholiadau’r Senedd yn

2026. Bydd rhywfaint o waith treialu'n effeithio ar gofrestru etholwyr ar gyfer etholiadau i ddod ac mae gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddiddordeb yn y cynlluniau peilot hyn.

5.11. Trafodwyd sut mae natur y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi newid a ph'un a oes ganddo ddigon o adnoddau o ran staff.

5.12. **Gweithredu**: CX i adolygu adnoddau ar gerrig milltir priodol.

5.13. Trafodwyd yr adroddiad prosiect ar gyfer y Platfform Gwybodaeth a'r penderfyniad y bydd y Cyflenwr yn cynnal y gwasanaeth yn lle'r Comisiwn a ph'un a yw hyn yn creu risgiau newydd ar gyfer y dyfodol. **Nodwyd** bod angen dibynnu ar gymorth allanol yn y tymor byr. Mae CD o Lywodraeth Cymru yn darparu cymorth gyda'r contract a lliniaru risgiau.

5.14. Trafodwyd rheolau gweithdrefnau drafft y BRhE o ran Paragraff 3.13. Trafodwyd rôl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio hefyd ac a oes angen ei datgan yn benodol.

5.15. Trafodwyd y berthynas rhwng y BRhE a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac eglurwyd ei fod yn darparu mwy o gymorth llywodraethu ac archwilio wrth i'r prosiect ddatblygu er mwyn helpu i liniaru risgiau.

5.16. Trafodwyd rhestru CDFfC yn gorff cyhoeddus a'r gofyniad i gyhoeddi Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

5.17. **Gweithredu:** Cyflwyno papur ar wahân i gyfarfod mis Awst neu fis Medi i sôn am gyfrifoldebau'r Bwrdd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Bydd cyfle i'r BRhE fwydo i hyn a sut mae'n cael ei ddatblygu o ran etholiad y Senedd yn 2026.

## 6. Cydnabyddiaeth Ariannol

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 23 Gorffennaf 2025 gan yr Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd.

6.2. **Nodwyd**, ar gyfer cyfarfod y bwrdd ym mis Awst, y bydd y bwrdd yn cael yr adroddiad blynyddol drafft gyda phenderfyniadau i'w hystyried ganddo cyn i'r ymgynghoriad ffurfiol ddechrau. Bydd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y cynnydd a argymhellir ar gyfer blwyddyn ariannol

26/27. Trafodwyd cyflwyno'r adroddiad hwn cyn etholiad y Senedd (diwedd mis Chwefror), sy'n datgan cynnydd 6.4% i gyflogau prif gynghorwyr a'r angen am strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu gadarn i gefnogi'r argymhelliad drafft.

6.3. **Gweithredu:** Gofynnir i'r pwyllgor cydnabyddiaeth ariannol ystyried yr ymagwedd at gyfathrebu ac ymgysylltu.

6.4. **Cytunwyd** y bydd cyfarfod mis Awst yn cael ei gynnal yn rhithwir.

6.5. Trafodwyd y papur ar Gynghorau Cymuned a Thref, gan gynnwys y gwaith ehangach a wnaed gan Lywodraeth Cymru ar waith Cynghorau Cymuned a Thref a'r heriau y mae maint ac adnoddau'n eu cyflwyno o ran cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer adrodd ar ddefnyddio cydnabyddiaeth ariannol.

6.6. **Cytunwyd** cynnal ymarfer bwrdd gwaith i goladu tystiolaeth ynglŷn â thaliadau cydnabyddiaeth ariannol Cynghorau Cymuned a Thref a defnydd ohonynt, ac nad oes angen adolygiad llawn ar hyn o bryd.

6.7. **Gweithredu**: Cwblhau gwaith ar lefel bwrdd gwaith tan ar ôl etholiad y Senedd.

## 7. Adroddiad ar y Gyllideb 2025-2026

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 30 Gorffennaf 2025 gan y Rheolwr Cyllid ac fe'i nodwyd.

7.2. **Nodwyd** bod tanwariant o £40,000 erbyn diwedd mis Mehefin a bod tanwariant o £5,000 mewn perthynas â chostau staffio, ond y bydd aelod ychwanegol o staff erbyn diwedd y flwyddyn. Dylid cadw codiad cyflog 3.75% ychwanegol mewn cof.

7.3. **Nodwyd** mai'r prif reswm am y tanwariant yw'r ffaith nad yw'r Comisiwn wedi derbyn anfoneb y chwarter cyntaf ar gyfer rhent llety.

7.4. Trafodwyd adroddiadau misol ar arian parod ac adroddiadau gwariant ar adnoddau, a ph'un a oes angen y ddau. Bydd yn newid i fodel adrodd gwahanol wrth symud ymlaen.

7.5. **Gweithredu**: CX i adolygu amlder a chynnwys adroddiadau ariannol ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd.

## 8. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risgiau

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 30 Gorffennaf 2025 gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. **Nodwyd** bod rhai hen gyfeiriadau o fewn y risgiau sy'n gysylltiedig ag amcanion allweddol y Cynllun Corfforaethol ac nad oedd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cwblhau ei adolygiad o fformat y gofrestr risgiau eto.

8.3. **Cytunodd** y Bwrdd i nodi'r risgiau strategol cyfredol ac adolygu'r gofrestr risgiau'n llawn ar ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gwblhau ei waith.

8.4. **Gweithredu**: Cynnwys adolygu risgiau yn y blaengynllun i'w ystyried gan y Bwrdd.

8.5. Adroddiad ar Barodrwydd i Dderbyn Risg i'w gyflwyno i'r un Bwrdd â'r gofrestr risgiau wedi'i diweddaru, gyda chefnogaeth Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

## 9. Adroddiad Cynnydd Arolygon

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 23 Gorffennaf gan y Pennaeth Arolygon ac fe'i **nodwyd**.

9.2. **Nodwyd** bod y pwyllgor yn parhau i aros am benderfyniad gan y Gweinidog ar gyfer Sir Benfro ac Abertawe.

9.3. **Nodwyd** eu bod yn parhau i aros am benderfyniad ar newidiadau i enwau ar gyfer gorchymyn Rhondda Cynon Taf.

9.4. **Nodwyd** bod y pwyllgor yn parhau i aros am gyflwyniadau gan unrhyw awdurdodau lleol eraill sy'n cynnal eu harolygon eu hunain a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn pan fyddant yn dod i law.

9.5. **Nodwyd** y bydd y cyfarfod pwyllgor cyntaf yn cael ei gynnal ar 15 Awst ac y bydd y trafodaethau wyneb yn wyneb.

9.6. **Nodwyd** y bydd yr adroddiadau cynigion drafft yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

9.7. **Nodwyd** y bu diweddariad i'r amserlen, gan nad oes amser bellach i

gynnal arolwg etholiadol Sir Benfro ac Abertawe cyn yr etholiad nesaf.

9.8. **Gweithredu**: Diwygio'r rhaglen er mwyn i'r Cadeirydd ei thrafod gydag MK.

## 10. Calendr Digwyddiadau

10.1. **Nododd** y Comisiwn y calendr.

10.2. O ran trosglwyddo'r awenau i'r Cadeirydd newydd, trafodwyd bod angen i gyfarfod y Comisiwn ym mis Rhagfyr gael ei ychwanegu at y calendr.

10.3. **Gweithredu**: Dyddiad dros dro i'w ychwanegu at y calendr.

## 11. Unrhyw Fater Arall

11.1. Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 27 Awst 2025**